

Dupilumab ar gyfer trin dermatitis atopig cymedrol i ddifrifol

1 Awst 2018

Mae Dupilumab (Dupixent), â chorticosteroidau argroenol, ar gael gan y GIG ar gyfer dermatitis atopig cymedrol i ddifrifol (ecsema) mewn oedolion. Dim ond os nad yw'r dermatitis wedi gwella gyda thriniaethau eraill, er enghraifft ciclosporin, methotrexate, azathioprine a mycophenolate, y gellir defnyddio'r driniaeth hon.

Dylid rhoi'r gorau i driniaeth gan ddefnyddio dupilumab ar ôl 16 wythnos os na fydd y dermatitis yn gwella digon.

Wrth asesu sut mae dermatitis yn effeithio ar ansawdd eich bywyd, dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ystyried unrhyw anableddau neu anawsterau cyfathrebu a allai fod gennych.

Os nad ydych yn gymwys i gael dupilumab, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwranddo'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?

- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Gwybodaeth a chymorth

Gall [NHS Choices](#) fod yn lle da i gael gwybod mwy

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Sefydliad Croen Prydain](#), 0207 391 6347
- [Cymdeithas Genedlaethol Ecsema](#), 0800 089 1122 (llinell gymorth i siarad ag Arbenigwr Nyrs Dermatoleg; ar agor 8am tan 8pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener)

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp [Gwarchod Iechyd](#) lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3042-5